

Rhaglen Chwaraeon Perfformiad Uchel Prifysgol Caerdydd Polisi Derbyn

Cefndir

Mae gennym raglen chwaraeon perfformiad uchel (HPP) i helpu myfyrwyr sy'n gallu dangos cyflawniad chwaraeon cyfredol ar lefel ryngwladol yn eu gyrfa academiaidd a chwaraeon wrth astudio gyda ni.

Mae'r rhaglen yn darparu ystod o wasanaethau i fyfyrwyr-athletwyr elitaidd dethol i:

- galluogi athletwyr elitaidd i barhau i hyfforddi a chystadlu ar y lefel uchaf wrth astudio
- cynyddu lefel perfformiad athletwyr
- darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar athletwyr
- darparu'r amgylchedd cymorth a hyfforddiant gorau
- gwella safle BUCS y Brifysgol yn barhaus.

Am ragor o wybodaeth gweler ein tudalennau gwe [Rhaglen Perfformiad Uchel](#).

Rydym yn cydnabod:

1. Efallai y bydd ymgeiswyr sy'n hyfforddi i lefel elitaidd yn cael llai o gyfleoedd i ymgymryd â phrofiad gwaith neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol y tu hwnt i'w camp.
2. Gall ymrwymiadau chwaraeon ar lefel ryngwladol effeithio ar astudiaeth academiaidd ymgeisydd, yn enwedig wrth astudio cymwysterau llinol fel Safon Uwch llinellol. O ganlyniad, efallai na fydd canlyniadau terfynol ymgeisydd yn dangos graddau i'w allu llawn neu, gall ymgeiswyr gymryd mwy o amser na'r amserlen safonol i gwblhau eu cymwysterau.

Ymgeisio i Brifysgol Caerdydd - ein hymrwymiad

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir sydd â'r potensial a'r penderfyniad i lwyddo ar ein rhaglenni astudio. Naill ai cyn neu ar yr adeg rydych chi'n barod i wneud cais am eich astudiaeth academiaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, rydyn ni'n argymhell cysylltu â Clare Daley, Cyfarwyddwr Chwaraeon Perfformiad, yn daleyc1@caerdydd.ac.uk mewn perthynas â'r HPP.

Ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael eu dewis ar gyfer yr HPP, os gwnewch gais erbyn y dyddiad cau priodol ar gyfer gwneud cais, byddwn yn ystyried effaith yr ymrwymiadau chwaraeon fel rhan o'r broses dderbyn fel a ganlyn:

Ar gyfer rhaglenni nad oes angen cyfweiliad, clyweliad neu adolygiad portffolio arnynt:

Pan fydd ymgeisydd yn dilyn neu wedi cyflawni cymwysterau priodol ar gyfer y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano, bydd cynnig yn cael ei wneud ar un radd yn is na'r cynnig safonol.

Ar gyfer rhaglenni sy'n gofyn am gyfweiliad, clyweliad, neu adolygiad portffolio, ac eithrio Meddygaeth (MBBCh) a Deintyddiaeth (BDS):

Pan fydd ymgeisydd yn cymryd a / neu wedi cyflawni cymwysterau priodol ar gyfer y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano, bydd yr ymgeisydd yn sicr o gael cyfweiliad, clyweliad neu adolygiad portffolio.

Os bydd cynnig yn cael ei wneud yn dilyn y broses ddethol, bydd hyn ar un radd yn is na'r cynnig safonol.

Ar gyfer rhaglenni Meddygaeth (MBBCh) a Deintyddiaeth (BDS) yn unig:

Pan fydd ymgeisydd yn cymryd a / neu wedi cyflawni cymwysterau priodol ar gyfer y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano, rhoddir pwyntiau ychwanegol i'r ymgeisydd yn y broses sgorio a dethol a ddefnyddir i bennu'r rhai sydd i'w gwahodd i gyfweiliad.